Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Gwybodaeth i Gleifion**

**Dirywiad Macwlaidd**

**Uned Llygaid**

---

**Beth yw Dirywiad Macwlaidd?**
Dirywiad macwlaidd sych ydy afiechyd ar y llygad sy'n effeithio ar bobl sydd dros drigain oed. Mae'r difrod yn digwydd yng nghanol y retina (cyfyr) a ddefnyddir ar gyfer gweld yn fanwl. Yn rhan fwyaf y bobl, bydd y golwg yn gwaethygu'n araf deg, dros nifer o fisoedd neu flynyddoedd.

Yn achos rhai pobl â dirywiad macwlaidd gwlyb, bydd gwaedu y tu ôl i'r retina. Mae hyn yn achosi cwymp yn y golwg canolog dros ambell ddiwrnod.

**Beth yw'r symptomau?**
Efallai mai anhawster darllen fydd y symptom cyntaf. Bydd llythrennau yn ymddangos fel petaent yn asio i'w gilydd ac yn cymysgu. Mae rhai pobl yn sylwi ar ystumiad, er enghraifft llinellau syth i'w gweld yn plygu. Wedyn, gall bod darn gwag yn y golwg canolog. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd adnabod wynebau ac yn anniogel gyrru.

**Af i'n ddall?**
Na. Waeth pa mor ddrwg fydd eich golwg canol, bydd y golwg perifferol neu'r ochr yn parhau. Bydd hyn yn eich galluogi i ddod o hyd i'ch ffordd o amgylch lleoliadau cyfarwydd.

**Pa driniaeth sydd ar gael?**
I'r rhan fwyaf o bobl â dirywiad macwlaidd sych, nid oes triniaeth feddygol ar gael.

Ar hyn o bryd, rhoddir cwrs o frechiadau i'r llygad fel triniaeth ar gyfer dirywio macwlaidd gwlyb. Mae hyn yn arafu twf y llestri gwaed anarferol a'r diferu sy'n achosi dirywiad macwlaidd gwlyb, ac oedi datblygiad yr afiechyd. Bydd eich arbenigwr llygaid yn trafod yr opsiynau sydd ar gael.

**Sut gallaf i elwa fwyaf ar y llygad sydd ar ôl?**

1. Sicrhewch y cewch wirio eich sbectol yn rheolaidd gan optegydd.

2. Defnyddiwch gymhorthion golwg gwan megis chwyddwydrau. Gall eich **arbenigwr llygad** drefnu asesiad ar gyfer y rhain.

3. Defnyddiwch olau llachar ar gyfer gwaith agos.

**Ellid fy nghofrestru fel rhannol ddall neu ddall?**
Os yw eich golwg canol yn wan iawn, mae’n bosibl y bydd eich arbenigwr llygad yn awgrymu y cewch eich cofrestru fel rhannol ddall neu ddall. Mae taflen ar wahân ar gael i fynd i’r afael â hyn.

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English”.**